# SL(6)040 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol[1] yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau. Mae categorïau penodol o bersonau wedi'u heithrio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt". Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 er mwyn ychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, fel a ganlyn: Yr Azores, Canada, Denmarc, y Ffindir, Liechtenstein, Lithwania, y Swistir.

Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i ychwanegu Montenegro a Gwlad Thai at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn caniatáu i blant ar eu pen eu hunain (o dan 18 oed) ynysu yn eu cyrchfan (yn hytrach nag mewn mannau eraill) pan fyddant yn cyrraedd o wlad a restrir yn Atodlen 3A ac y byddant yn mynychu ysgol breswyl neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru (Gweler Rheoliad 12E). Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys unrhyw fyfyrwyr o dan 18 oed sy'n dod i Gymru i ddilyn astudiaethau mewn addysg uwch. Mae'r dull hwn yn gyson â dull Llywodraeth y DU.

Mae Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn nodi rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig. Gall unigolyn y mae'n ofynnol iddo ynysu adael yr ynysu hwnnw i gystadlu neu hyfforddi, neu ddarparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu yn y digwyddiadau hynny. Mae rheoliad 6 yn ychwanegu'r canlynol at y rhestr-

- Cystadleuaeth Cynghrair Hoci y Pencampwyr
- Gemau rhagbrofol Cwpan y Byd FIH ar gyfer Dynion (grŵp Ewropeaidd)

[1]Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574)

## Y weithdrefn

Gwneud Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi cael ei thorri (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym). Nodwn ymhellach yr esboniad a roddir gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y toriad, mewn llythyr at y Llywydd ar 27 Awst 2021, sef-

> *"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.